AtkinsRéalis

Ymgynghoriad Teithio Llesol Llandudoch a Thraeth Poppit

Ionawr 2025

# ADRODDIAD YMGYNGHORIAD TEITHIO LLESOL LLANDUDOCH A THRAETH POPPIT

# Hysbysiad

Mae'r ddogfen hon a'i chynnwys wedi'u paratoi ac wedi'u bwriadu'n unig fel gwybodaeth i'w defnyddio mewn perthynas ag Adroddiad Ymgynghoriad Teithio Llesol Llandudoch a Thraeth Poppit.

Nid yw AtkinsRéalis UK Limited yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb unrhyw barti arall mewn perthynas â'r ddogfen hon a/neu ei chynnwys gan gynnwys yr hyn sy'n deillio ohoni neu mewn cysylltiad â hi.

Mae gan y ddogfen hon 27 tudalen gan gynnwys y clawr.

## Hanes dogfen

Teitl y ddogfen: Ymgynghoriad Teithio Llesol Llandudoch a Thraeth Poppit

Cyfeirnod y ddogfen: 2.0

| Adolygu | Disgrifiad o'r pwrpas | Tarddiad | Gwiriwyd | Adolygwyd | Awdurdodwyd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.0 | Dosbarthiad i'r cleient | HN/GR | SG | JS | AK | 20/12/24 |
| 2.0 | Rhifyn olaf | HN/GR | SG | JS | AK | 29/01/25 |

## Cymeradwyaeth cleient

| | |
|---|---|
| **Cleient** | Cyngor Sir Penfro |
| **Prosiect** | ADRODDIAD YMGYNGHORIAD TEITHIO LLESOL LLANDUDOCH A THRAETH POPPIT |
| **Cyfeirnod y gwaith** | 100112556 |
| **Llofnod cleient/dyddiad** | |

# Cynnwys


**1. Rhagymadrodd** .....**5**

1.1 Pwrpas yr adroddiad .....5

1.2 Strwythur yr adroddiad .....5

**2. Trosolwg o'r prosiect** .....**6**

2.1 Llandudoch i Draeth Poppit .....6

2.2 Gwelliannau Llandudoch .....7

2.2.1 Opsiynau â blaenoriaeth .....7

2.2.2 Llwybrau amgen .....9

**3. Dull ymgysylltu** .....**10**

3.1 Arolwg .....10

3.2 Ymgysylltu wyneb yn wyneb .....10

**4. Dadansoddiad o ymatebion** .....**11**

4.1 Arolwg .....11

4.1.1 Pwrpas teithio .....11

4.1.2 Barn ar y llwybrau blaenoriaeth .....12

4.1.3 Barn ar lwybrau amgen .....16

4.1.4 Barn gyffredinol ar y cynllun .....188

4.1.5 Cwestiynau cymdeithasol a demograffig .....23

**5. Crynodeb o adborth** .....**25**

**6. Camau nesaf** .....**26**


## Tablau


Tabl 5-1 - Casgliadau o ymatebion i'r arolwg .....25

## Ffigurau

Ffigur 2-1 - Llandudoch i Draeth Poppit ....... 7

Ffigur 2-2 - Llandudoch - llwybrau wedi'u blaenoriaethu ....... 8

Ffigur 2-3 - Llandudoch - llwybrau amgen ....... 9

Ffigur 4-1 - Beth yw eich rheswm dros ymweld â Llandudoch/Traeth Poppit? ....... 11

Ffigur 4-2 - A ydych yn cefnogi'r llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig a amlygwyd mewn porffor a choch ar y cynlluniau sydd ynghlwm? ....... 12

Ffigur 4-3 - Os ydych wedi ateb 'na' i gwestiwn 3, a wnewch chi ddweud wrthym pam? (Llwybr Canol y Pentref) ....... 13

Ffigur 4-4 - Os ydych wedi ateb 'na' i gwestiwn 3, a wnewch chi ddweud wrthym pam? (Llwybr Pren)) ....... 14

Ffigur 4-5 - Os ydych wedi ateb na i gwestiwn 3, rhowch wybod i ni pam? (Sylwadau cyffredinol) ....... 15

Ffigur En 4-6 - Rhestrwch eich opsiwn dewisol ar gyfer y Caeau Chwarae, Strydoedd Tawel a Llwybr tawel Stryd y Felin? ....... 16

Ffigur 4-7 - Rhestrwch eich opsiwn lleiaf dewisol ar gyfer y Caeau Chwarae, Strydoedd Tawel a Llwybr tawel Stryd y Felin? ....... 17

Ffigur 4-8 - Yn eich barn chi, pa mor fuddiol fyddai'r cysylltiad arfaethedig o Landudoch i Draeth Poppit?? ....... 18

Ffigur 4-9 - Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am feicio yn yr ardal ar hyn o bryd? ....... 19

Ffigur 4-10 - Ydych chi'n meddwl y byddai'r llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig yn eich annog i gerdded neu feicio mwy, a gwella hygyrchedd i bobl ag anghenion symudedd? ....... 20

Ffigur Onc4-11 - Os ydych wedi ateb nac ydw neu'n ansicr i gwestiynau 8 a 9, dywedwch pam wrthym? ....... 21

Ffigur I4-12 - A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar y cynnig hwn? ....... 22

Ffigur 4-13 – Beth yw eich oedran? ....... 23

Ffigur 4-14 - Pa effeithiau/cyfleoedd fyddai'r cynigion yn eu cael ar bersonau i ddefnyddio'r Gymraeg? ....... 24

# 1. Rhagymadrodd

## 1.1 Pwrpas yr adroddiad

Mae Cyngor Sir Penfro (CSP) wedi ymgysylltu i gael adborth ar y cynigion canlynol ar gyfer llwybrau teithio llesol:

- Creu cyswllt teithio llesol diogel rhwng Llandudoch a Thraeth Poppit.
- Gwelliannau teithio llesol trwy weithredu llwybrau cyd-ddefnyddio yn Llandudoch.

Yn yr adroddiad hwn, diffinnir llwybrau cyd-ddefnyddio fel llwybrau sydd wedi'u cynllunio i gynnwys symudiadau defnyddwyr sy'n cerdded, yn olwyno ac yn beicio, a diffinnir teithio llesol fel teithiau a wneir trwy weithgaredd corfforol, megis cerdded, olwyno a beicio.

Ymgymerwyd â'r ymgysylltiad hwn fel rhan o'r ymgysylltu ehangach ar gyfer y gwelliannau teithio llesol ledled Sir Benfro. Ar gyfer Llandudoch a Thraeth Poppit, roedd hyn yn cynnwys arolwg cymunedol a gweithdy ymgynghori cyhoeddus a sesiwn galw heibio. Roedd cyfnod ymgysylltu'r arolwg yn rhedeg am bedair wythnos o ddydd Llun, 21 Hydref i ddydd Llun, 18 Tachwedd 2024. Dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus gyda gweithdy ddydd Llun, 21 Hydref a chynhaliwyd sesiwn galw heibio rhwng 10am a 12am, 1pm a 4pm a rhwng 6:30pm ac 8pm yn Neuadd Goffa Llandudoch.

Mae'r adroddiad ymgysylltu hwn yn rhoi crynodeb o sut y cynhaliwyd yr ymgysylltiad cyhoeddus a sut y dadansoddwyd yr ymatebion a gafwyd. Cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad hwn, ac amlinelliad o sut y bydd Cyngor Sir Penfro yn ystyried yr ymatebion yng ngham nesaf y prosiect. Mae'r adborth a gafwyd hefyd wedi rhoi mewnwelediadau lleol gwerthfawr i'r cyngor a fydd o fudd i'r prosiect hwn a phrosiectau eraill yn yr ardal leol..

## 1.2 Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad ymgysylltu hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Pennod 2 Trosolwg o'r prosiect:** cyd-destun y prosiect a chrynodeb o ymgysylltu blaenorol.
- **Pennod 3 Dull ymgysylltu:** dulliau ymgysylltu, hyrwyddo a deunyddiau, adborth, dadansoddiad a hygyrchedd.
- **Pennod 4 Dadansoddiad o ymatebion:** themâu cyffredin sy'n codi o'r ymgysylltu.
- **Pennod 5 Crynodeb o adborth:** crynodeb o ganfyddiadau allweddol yr ymgysylltu.
- **Pennod 6 Camau nesaf:** mae'n nodi'r camau nesaf yn dilyn ymgysylltu.

# 2. Trosolwg o'r prosiect

Mae Llandudoch yn un o'r cyrchfannau twristiaid mwyaf poblogaidd yn Sir Benfro, wedi'i leoli ar un pen Llwybr Arfordir Sir Benfro. Yn gartref i tua 1,543 o bobl (Cyfrifiad 2021), mae'r pentref hefyd yn safle abaty o'r 12fed Ganrif. Mae'r pentref wedi tyfu o amgylch ei lwybrau hanesyddol ac fe'i nodweddir gan ffyrdd cul, yn aml gyda throedffyrdd cyfyngedig i gerddwyr, beicwyr ac olwynwyr. Mae parcio yn her, lle mae'r rhan fwyaf o drigolion yn parcio ar y stryd neu mewn mannau parcio cyfyngedig drwy'r pentref.

Cynhaliwyd arolygon llif traffig yn 2017 a 2019. Mae'r brif ffordd (y B4546) yn arwain ymlaen i Draeth Poppit, tua 1.8 milltir i'r gogledd. Roedd data llif traffig o gyfnod y Pasg (mis Ebrill) 2017 yn dangos bod 662 o gerbydau wedi teithio i'r gogledd o'r pentref rhwng 7am a 7pm (bron un car y funud). Mae data cyfrif traffig yr Adran Drafnidiaeth (DfT) ar y B4546 yn dangos llif cerbydau dyddiol cyfartalog o 935 yn 2019[1].

Mae'r cynigion i wella symudiadau cerddwyr a beicwyr drwy Landudoch wedi'u codi gan drigolion lleol drwy'r cynghorwyr lleol a sir. Mae ceisiadau i chwilio am lwybr cerdded diogel, a all wedyn gysylltu â Thraeth Poppit, yn llunio sail y cynllun presennol hwn.

Mae'r lleoedd parcio presennol yn Llandudoch a'r cyffiniau yn gyfyngedig, gyda llawer o drigolion yn parcio ar y stryd o fewn mannau parcio heb eu dyrannu. Gall hyn arwain at bwysau ychwanegol ar y rhwydwaith o ran llif traffig a mannau cyfyng.

Nod y cynigion yw:

- Creu cyswllt teithio llesol diogel rhwng Llandudoch a Thraeth Poppit.
- Gwella diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer pobl sy'n cerdded, olwyno neu feicio.
- Annog teithio llesol cymdeithasol gynhwysol ar gyfer pob math o siwrneiau gan gynnwys twristiaeth a hamdden.
- Lleihau lefelau dibyniaeth ar geir, lleihau ôl troed carbon, llygredd a thagfeydd.
- Gwella'r amgylchedd, iechyd a lles cymdeithasol y gymuned.

## 2.1 Llandudoch i Draeth Poppit

Mae'r cynllun hwn yn pwyso a mesur darparu llwybr cyd-ddefnyddio wedi'i wahanu gerllaw'r ffordd ar hyd y B4546 i Draeth Poppit (pellter o 1.8 milltir, wedi'i ddangos yn Ffigur 2-1). Mae Traeth Poppit yn gyrchfan boblogaidd i lawer o drigolion lleol ac ymwelwyr ond nid oes unrhyw gyfleusterau pwrpasol ar gyfer defnyddwyr teithio llesol. Mae'r brif ffordd, Feidr Fawr (B4546), yn ffordd gul gyda thraffig cyflym, troadau dall a chopaon dall lle nad yw gyrwyr yn gallu gweld pobl sy'n cerdded, olwyno, beicio na phlant. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu gan y tri gwrthdrawiad ysgafn a'r un gwrthdrawiad difrifol sydd wedi digwydd ar y B4546 rhwng 2019-2023[2]. Mae cyflymder traffig, gyda gwrychoedd uchel hefyd yn amharu ar welededd, yn enwedig ar y rhan o'r B4546 sy'n mynd i'r gogledd allan o Landudoch, hefyd yn bryder sylweddol ac yn gwneud darparu cynllun yn anghenraid o ran diogelwch ac annog newid dulliau teithio i gerdded, olwyno a beicio.

Cynigiwyd y cynllun hwn gyntaf gan y gymuned leol yn 2006, a sefydlwyd gweithgor lleol yn cynnwys trigolion yn 2013. Mae tair astudiaeth ddichonoldeb wedi'u cwblhau ar lwybr oddi ar y ffordd rhwng Llandudoch a Poppit, y gyntaf gan Gyngor Sir Penfro yn 2013, yr ail gan Cam Nesa, a'r drydedd gan WS Atkins Consulting Engineers yn 2021. Ymhellach

[1] Ystadegau traffig ffyrdd - Pwynt cyfrif â llaw: 811812
[2] CrashMap

i'r rhain, lansiwyd deiseb ar-lein yn galw ar CSP i ddarparu llwybr cerdded a beicio diogel a hygyrch o Landudoch i Draeth Poppit ym mis Chwefror 2024.

Mae cefnogaeth gymunedol sylweddol i'r cynllun sy'n awgrymu, unwaith y bydd y llwybr yn ei le, y bydd yn arwain at newid dulliau teithio o ddefnyddio ceir preifat ar gyfer teithiau i Draeth Poppit ac oddi yno.

**Ffigur 2-1 - Llandudoch i Draeth Poppit**




## 2.2 Gwelliannau Llandudoch

Mae gwelliannau yng nghanol Llandudoch wedi'u rhannu'n ddau opsiwn â blaenoriaeth, a phedwar opsiwn amgen.

### 2.2.1 Opsiynau â blaenoriaeth

Rhestrir y ddau lwybr blaenoriaeth isod ac fe'u dangosir yn Ffigur 2-2:


- Creu llwybr cyd-ddefnyddio tua 460 metr yn cysylltu troedffordd Feidr Fach a llwybr pren cantilifer i Stryd Pilot (Llwybr Pren); neu
- Creu llwybr cyd-ddefnyddio tua 645 metr ar hyd y Stryd Fawr, Feidr Fawr a Stryd Pilot (B4546) (Llwybr Canol y Pentref).

Nod y cynigion yw darparu un o'r llwybrau hyn fel rhan o gam 1 y gwelliannau yn Llandudoch. Mae cam 1 yn cynnwys edrych ar ddyluniad manwl, gan arwain at adeiladu Llwybr Pren neu Lwybr Canol y Pentref. Y Llwybr Pren yw'r llwybr blaenoriaeth uchaf a ffafrir ar gyfer ei adeiladu yn gyntaf.

Nod y Llwybr Pren yw uwchraddio seilwaith presennol yr ardal i ddarparu cysylltiadau diogel a hawdd eu defnyddio ar hyd hawl tramwy cyhoeddus ar hyd Feidr Fach. Byddai angen darn llwybr pren cantilifer, ger yr aber llanw, ar gyfer elfennau o'r llwybr hwn.

Nod Llwybr Canol y Pentref yw gwella cysylltedd troedffyrdd i Feidr Fach trwy gyfres o welliannau i gerddwyr, gan gynnwys lledu troedffyrdd. Mae'r llwybr hwn hefyd yn cynnig llif blaenoriaeth ar gyfer traffig cerbydau ar gyffordd y Stryd Fawr / Feidr Fawr. Mae hyn yn cynnwys darparu bwrdd wedi'i godi, culhau arwyneb, a blaenoriaethu llif traffig tua'r de; gan alluogi cerddwyr i symud yn fwy diogel drwy'r ardal.

**Ffigur 2-2 - Llandudoch - llwybrau wedi'u blaenoriaethu**




## 2.2.2 Llwybrau amgen

Mae pedwar llwybr amgen posibl trwy Landudoch hefyd wedi'u hystyried ac yn cael eu dangos yn Ffigur 2-3. Byddai'r rhain yn rhan o gam 2 ac yn gwella cysylltiadau teithio llesol drwy ganol y pentref.

- Mae Llwybr Caeau Chwarae yn cynnig opsiwn amgen i'r Llwybr Pren. Byddai angen gallu gosod clwyd ar y naill ben i'r llwybr a/neu gosod ffens rhwng y llwybr a'r caeau chwarae. Ar hyn o bryd nid yw'n hawl tramwy cyhoeddus nac yn llwybr sydd eisoes yn bodoli ac felly, byddai angen adeiladu llwybr cwbl newydd.
- Byddai llunio llwybr Strydoedd Tawel yn defnyddio'r seilwaith presennol a ffyrdd tawel i'r dwyrain o'r pentref. Bydd dyluniadau'n adolygu'r llwybr strydoedd tawel presennol i sicrhau eu bod yn darparu cysylltiad diogel, hawdd ei ddefnyddio trwy llwybr cyd-ddefnyddio newydd i'r dwyrain.
- Mae Llwybr tawel Stryd y Felin yn ffordd tawel arall o fynd i Strydoedd Tawel. Mae'r llwybr hwn yn llai dymunol oherwydd amrediad llanw'r aber, gyda chysylltedd llai uniongyrchol ar hyd strydoedd cul, tawel.
- Ar hyn o bryd nid yw Llwybr yr Aber yn llwybr ymarferol gan nad yw wedi'i ddosbarthu fel hawl tramwy cyhoeddus ac mae o fewn ardal lanw'r aber. Cynigir bod y llwybr hwn yn cael ei ddileu ac na ddylid ei ddatblygu ymhellach.

Oherwydd anaddasrwydd y pedwerydd opsiwn ar hyd Llwybr yr Aber, dim ond adborth ar y tri opsiwn arall sy'n weddill y mae CSP yn ei geisio.

**Ffigur 2-3 - Llandudoch - llwybrau amgen**



# 3. Dull ymgysylltu

Diben y rownd hon o ymgysylltu oedd ymgysylltu'n ffurfiol â'r gymuned leol ar y llwybrau arfaethedig ar gyfer gwelliannau teithio llesol, fel rhan o'r ymgysylltu ehangach ar gyfer gwelliannau teithio llesol ledled Sir Benfro. Nod yr ymgynghoriad cyhoeddus oedd casglu adborth ar y newidiadau arfaethedig, casglu barn ar yr opsiynau llwybr a ffefrir lle bo'n briodol, ac ar ddyluniadau dichonoldeb cychwynnol.

Yn dilyn y rownd hon o ymgynghori, bydd CSP yn nodi'r opsiwn terfynol a ffefrir ar gyfer pob llwybr. Bydd yr adborth a dderbynnir gan y gymuned leol yn helpu i lunio'r opsiwn hwn ac ni fydd yr opsiwn a ffefrir yn cael ei benderfynu'n derfynol nes bod yr holl adborth wedi'i ddadansoddi.

## 3.1 Arolwg

Er mwyn deall barn pobl yn well ar sut i fireinio dyluniad y cynllun, datblygodd CSP arolwg a gyhoeddwyd ar-lein a'i hyrwyddo yn y gymuned. Cynhaliwyd yr arolwg ar Microsoft Forms a chafwyd mynediad iddo trwy ddolen o wefan CSP. Roedd copïau papur o'r dyluniadau a'r arolwg, ynghyd â blwch sylwadau, ar gael yn Neuadd y Sir. Roedd cynlluniau hefyd ar gael gan y cynghorydd sir lleol. Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg yn y ddau fformat, ac roedd copïau wedi'u postio o'r dyluniadau a'r arolwg ar gael ar gais.

Nod cwestiynau'r arolwg oedd casglu adborth ar y cynigion ar wahân. Roedd y cwestiynau'n cynnwys nifer o gwestiynau agored a chaeedig, gyda phob cwestiwn a osodwyd (un ar gyfer pob cynnig) yn canolbwyntio ar ba mor aml yr oedd unigolion yn teithio ar hyd pob llwybr, a oedd unigolion yn teimlo y byddai'r llwybrau arfaethedig yn gwella hygyrchedd, ac a oeddent yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig.

Cynhaliwyd yr arolwg am gyfnod o bedair wythnos rhwng dydd Llun, 21 Hydref a dydd Llun, 18 Tachwedd 2024.

## 3.2 Ymgysylltu wyneb yn wyneb

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus gyda sesiwn galw heibio ddydd Llun, 21 Hydref, rhwng 10am a 12pm, 1pm a 4 pm a rhwng 6:30pm ac 8pm yn Neuadd Goffa Llandudoch. Roedd gan bob sesiwn gynrychiolwyr o CSP yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau a gododd. Roedd ymwelwyr â phob sesiwn galw heibio yn gallu edrych ar gopïau papur o'r dyluniadau, a ddangoswyd hefyd ar fyrddau stori yn y digwyddiad. Cafodd unigolion a fynychodd y sesiynau galw heibio gyfle i lenwi copïau papur o'r arolwg, yn ogystal â gadael unrhyw sylwadau ychwanegol drwy'r blwch sylwadau. Roedd dros 105 yn bresennol drwy gydol y dydd, gyda chynrychiolwyr o'r cyngor tref lleol, Cymdeithas Llwybrau Llandudoch, Pembrokeshire Wheelersl a'r cyhoedd.

Roedd y fersiynau printiedig o'r dyluniadau a'r arolygon papur ar gael yn Neuadd y Sir neu gan y cynghorydd sir lleol tan ddydd Llun, 18 Tachwedd, ac wedi hynny casglwyd a thynnwyd unrhyw gopïau oedd yn weddill.

# 4. Dadansoddiad o ymatebion

## 4.1 Arolwg

Derbyniwyd 102 o ymatebion i'r arolwg hwn trwy ymatebion ar-lein a chopïau papur a ddaeth i law. Hysbysebwyd yr arolwg ar-lein rhwng dydd Llun, 21 Hydref a dydd Llun, 18 Tachwedd.


Mae'n bwysig nodi, er bod 102 o ymatebwyr unigol wedi ateb cwestiynau'r arolwg, yn yr adran ganlynol, mae graffiau a chanddynt dros 102 o ymatebion yn cynnwys ymatebion i nifer o gwestiynau wedi'u cyfuno. Yn ogystal, efallai na fydd canrannau mewn graffiau yn adio i 100% oherwydd mân anghysondebau talgrynnu. Roedd y cwestiynau yn yr arolwg i gyd yn ddewisol i ymatebwyr eu hateb, gan gynnwys y set o gwestiynau *Amdanoch Chi*.

Mae'r holl ymatebion wedi'u hystyried yn adborth yr arolwg.

### 4.1.1 Pwrpas teithio

Mae Ffigur 4-1 yn dangos rhaniad y rhesymau a roddodd ymatebwyr yr arolwg dros ymweld â Llandudoch a Thraeth Poppit. Caniatawyd i ymatebwyr ddewis mwy nag un rheswm dros eu hymweliadau, a chafwyd cyfanswm o 142 o ymatebion.

**Ffigur 4-1 - Beth yw eich rheswm dros ymweld â Llandudoch/Traeth Poppit?**




Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn drigolion lleol (60%), gyda thripiau i amwynderau lleol neu ymweld â ffrindiau a theuluoedd yn cyfrif am gyfanswm o 27% o'r ymatebion. Roedd cymudo i'r gwaith neu'r ysgol yn cyfrif am 11% o'r


ymatebion, gyda theithiau 'eraill' yn cyfrif am y 2% olaf o'r ymatebion. Mae hyn yn awgrymu bod yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad yn rhoi sampl cryf o adborth gan drigolion ac ymwelwyr â Llandudoch.

### 4.1.2 Barn ar y llwybrau blaenoriaeth

Mae Ffigur 4-2 yn dangos a yw ymatebwyr yr arolwg yn cefnogi'r llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig a gyflwynir yn Ffigur 2-2. Y llwybrau hyn yw:

- Llwybr Pren – Creu llwybr cyd-ddefnyddio tua 460m yn cysylltu troedffordd Feidr Fach â llwybr cyd-ddefnyddio newydd a llwybr pren cantilifer yn cysylltu â Stryd Pilot trwy'r hawl tramwy cyhoeddus presennol (llwybr coch ar gynlluniau'r cynllun).
- Llwybr Canol y Pentref – Creu llwybr cyd-ddefnyddio tua 645m ar hyd y Stryd Fawr, Feidr Fawr a Stryd Pilot (B4546) (llwybr porffor ar gynlluniau'r cynllun).


**Ffigur 4-2 - A ydych yn cefnogi'r llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig a amlygwyd mewn porffor a choch ar y cynlluniau sydd ynghlwm?**




Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (49%) nad ydynt yn cefnogi'r llwybrau cyd-ddefnyddio arfaethedig, fel y'u cyflwynir ar hyn o bryd. Mae hwn yn ateb lefel uchel, ond, roedd llawer o adborth yn ystod y sesiwn galw heibio o blaid y Llwybr Pren, a llai o gefnogaeth i Lwybr Canol y Pentref. Nid oedd yr arolwg ar-lein yn holi am y ddau opsiwn ar wahân a byddai wedi rhoi ymateb manylach pe bai wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, mynegodd 42% gefnogaeth i'r cynigion a nododd 9% o'r ymatebwyr eu bod yn 'ansicr'.

Os gwnaethant ymateb 'nac ydw' neu 'ansicr' i'r cwestiwn hwn, gofynnwyd hefyd i ymatebwyr roi rheswm dros hynny drwy gwestiwn agored. Mae dadansoddiad o'r themâu cyffredin sy'n codi, sy'n gysylltiedig â phob llwybr, wedi'i rannu'n seiliedig ar ba lwybr y mae'r sylwadau'n cyfeirio ato. Derbyniwyd 63 o sylwadau yn ymwneud â Llwybr Canol y Pentref, a dim ond 23 ynglŷn â'r Llwybr Pren. Yn ogystal, categorïwyd 13 sylw fel sylwadau cyffredinol ar draws y ddau gynnig. Mae Ffigur 4-3 i Ffigur 4-5 yn dangos dadansoddiad o'r themâu mwyaf cyffredin ar gyfer y llwybrau a'r sylwadau cyffredinol.

**Ffigur 4-3 - Os ydych wedi ateb 'na' i gwestiwn 3, a wnewch chi ddweud wrthym pam? (Llwybr Canol y Pentref)**




Y themâu mwyaf cyffredin o ran Llwybr Canol y Pentref oedd pryderon ynghylch cynnydd mewn tagfeydd traffig a ffordd gerbydau gul o ganlyniad i'r cynllun. Ar y llaw arall, y thema fwyaf cyffredin ar gyfer y Llwybr Pren oedd cefnogaeth i'r llwybr hwn, a'r prif bryder oedd y gwrthdaro posibl rhwng defnyddwyr.


Mae'n werth nodi bod rhai sylwadau ynghylch Llwybr Canol y Pentref ar hyd Stryd Fawr Llandudoch yn cefnogi'r syniad o wella diogelwch. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr â atebodd 'nac ydw' neu 'ansicr' i'r cwestiwn blaenorol, yn teimlo y byddai culhau'r ffordd gerbydau yn achosi problemau difrifol yn enwedig o ran cynyddu ciwiau traffig a mynediad i gerbydau brys, gan gynnwys galwadau i'r RNLI. Teimlai'r ymatebwyr y byddai'r llif blaenoriaeth yn achosi tagfeydd drwy greu atalfa, a gallai hyn gael effeithiau negyddol ar iechyd trigolion ac ymwelwyr â'r Stryd Fawr

trwy gynnydd mewn allyriadau ceir. Cododd pryderon ynghylch cyflenwadau i siopau ar y Stryd Fawr a allai hefyd fod yn broblem o ran y llif blaenoriaeth, gan rwystro traffig i'r ddau gyfeiriad.

Roedd sylwadau eraill ynghylch Llwybr Canol y Pentref yn nodi y gallai gwelliannau teithio llesol fod â'r potensial i rwystro mynediad i dai trigolion ar y Stryd Fawr neu gael gwared ar fannau parcio y tu allan i'w tai. Teimlai ymatebwyr y gallai cael gwared ar fannau parcio effeithio ar fusnesau lleol drwy leihau nifer yr ymwelwyr â'r Stryd Fawr, gan nodi y gallai pobl â phroblemau symudedd cael anhawster cael mynediad i Landudoch. Nodwyd bod cael gwared ar fannau parcio yn broblem fwy yn ystod misoedd yr haf, lle mae meysydd parcio yn aml yn llawn cerbydau ymwelwyr â'r ardal. Yn ddiddorol, nid oes bwriad i ddileu mannau parcio ar hyd y Stryd Fawr o fewn y cynlluniau, sy'n dangos nad oedd yr elfen hon wedi'i gwneud yn ddigon clir o fewn yr ymgynghoriad cyhoeddus..

Roedd sylwadau ychwanegol yn sôn am wrthdaro rhwng defnyddwyr, gyda phobl sy'n cerdded ac yn olwyno yn nodi y byddent yn teimlo'n anniogel i rannu llwybr â phobl sy'n beicio, a'r angen am welliannau i wasanaethau bysiau lleol i annog newid dulliau teithio.

**Ffigur 4-4 - Os ydych wedi ateb 'na' i gwestiwn 3, a wnewch chi ddweud wrthym pam? (Llwybr Pren))**




Ar gyfer ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y Llwybr Pren, roedd y teimlad yn llawer mwy cadarnhaol, er i'r cwestiwn ofyn am sylwadau pellach gan y rhai a atebodd 'na' neu 'ansicr' yn unig i'r cwestiwn blaenorol. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n cefnogi'r Llwybr Pren yn hytrach na Llwybr Canol y Pentref ac yn teimlo bod angen y gwelliannau ers nifer o flynyddoedd.

Teimlai ymatebwyr y byddai angen iddo fod yn ddigon llydan er mwyn iddo weithio fel llwybr cyd-ddefnyddio, neu byddai gwrthdaro rhwng defnyddwyr. Teimlai sylwadau y gallai mannau cyfyng ar hyd y llwybr fod yn beryglus i ddiogelwch cerddwyr a defnyddwyr eraill er engraifft, plant iau ar feiciau neu'r rhai â phroblemau symudedd. Awgrymwyd gwahanu moddau fel ateb posibl ar gyfer gwrthdaro defnyddwyr.

Roedd sylwadau eraill yn nodi y dylid ystyried yr arwyneb a'r deunyddiau a ddefnyddir ar y Llwybr Pren er mwyn sicrhau hirhoedledd y llwybr, gan nodi llwybrau lleol eraill sydd angen eu hatgyweirio.

**Ffigur 4-5 - Os ydych wedi ateb na i gwestiwn 3, rhowch wybod i ni pam? (Sylwadau cyffredinol)**




Y themâu mwyaf cyffredin o'r sylwadau cyffredinol oedd y syniad bod y cynllun yn wastraff adnoddau neu fod yr ymatebwyr yn gofyn am ragor o wybodaeth. Roedd y sylwadau am weld rhagor o fanylion yn y cynigion a'r gost gyffredinol ar gyfer yr opsiynau amrywiol, tra bod sylwadau eraill yn teimlo y gellid gwario arian yn rhywle arall, gan awgrymu ehangu neu adeiladu meysydd parcio newydd.

### 4.1.3 Barn ar lwybrau amgen


Mae Ffigur En 4-6 a Ffigur 4-7 yn dangos sut roedd yr ymatebwyr yn gosod eu hoff opsiynau llwybr amgen a'r opsiynau llwybr amgen llai ffafriol yn ôl eu trefn. Y llwybrau amgen yw:

- Llwybr Caeau Chwarae (mwyaf poblogaidd)
- Strydoedd Tawel
- Llwybr tawel Stryd y Felin (lleiaf poblogaidd)


Y Llwybr Caeau Chwarae oedd yr opsiwn a ffafriwyd fwyaf, gan gyfrif am 38% o'r ymatebion, hwn hefyd yw'r llwybr a gafodd y gyfran isaf o ymatebion yn ei ddewis fel yr opsiwn a ffefrir leiaf, gyda 24% o'r ymatebion. Ar y llaw arall, dim ond 25% o ymatebwyr oedd yn ffafrio'r opsiwn Llwybr tawel Stryd y Felin, a'r opsiwn hwn gafodd y gyfran uchaf o ymatebion ar gyfer yr opsiwn a ffefrir leiaf (46%).

Mae'r ymatebion yn dangos ffafriaeth ar gyfer y Llwybr Caeau Chwarae, gyda'r Llwybr Strydoedd Tawel yn dilyn yn agos.

**Ffigur En 4-6 - Rhestrwch eich opsiwn dewisol ar gyfer y Caeau Chwarae, Strydoedd Tawel a Llwybr tawel Stryd y Felin?**




**Ffigur 4-7 - Rhestrwch eich opsiwn lleiaf dewisol ar gyfer y Caeau Chwarae, Strydoedd Tawel a Llwybr tawel Stryd y Felin?**



### 4.1.4 Barn gyffredinol ar y cynllun


Mae Ffigur 4-8 yn dangos pa mor fuddiol y byddai’r cysylltiad arfaethedig o Landudoch i Draeth Poppit ym marn ymatebwyr yr arolwg. Yn galonogol, dywedodd 60% y byddai’n 'fuddiol' neu 'fuddiol iawn', o gymharu â 36% yn dweud 'ddim yn fuddiol iawn' neu 'ddim yn fuddiol o gwbl'.

**Ffigur 4-8 - Yn eich barn chi, pa mor fuddiol fyddai’r cysylltiad arfaethedig o Landudoch i Draeth Poppit??**




Yn ogystal, mae Ffigur 4-9 yn dangos pa mor hyderus y mae ymatebwyr yr arolwg yn teimlo am feicio yn yr ardal ar hyn o bryd. Dim ond 30% ddywedodd 'hyderus iawn' neu 'hyderus' o gymharu â 55% yn dweud 'ddim yn hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl'. Mae’r cwestiynau hyn yn cyfuno i ddangos bod awydd, ac angen, am lwybr teithio llesol rhwng Llandudoch a Thraeth Poppit.


**Ffigur 4-9 - Pa mor hyderus ydych chi’n teimlo am feicio yn yr ardal ar hyn o bryd?**




Mae Ffigur 4-10 yn dangos yr ymatebion i gwestiynau sy’n gofyn a oedd ymatebwyr yn meddwl y byddai’r llwybr cyd-ddefnyddio â weithredwyd yn:


- Gwella hygyrchedd i’r rhai ag anghenion symudedd.
- Annog yr atebydd i gerdded/beicio mwy.

**Ffigur 4-10 - Ydych chi'n meddwl y byddai'r llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig yn eich annog i gerdded neu feicio mwy, a gwella hygyrchedd i bobl ag anghenion symudedd?**




Mae ymateb ychydig yn uwch gan y rhai sy'n cytuno (48% o'r ymatebion) o gymharu a'r rhai sy'n anghytuno (38% o'r ymatebion) â'r datganiadau. Roedd 16% o'r ymatebion yn 'ansicr' ar y ddau ddatganiad.

**Ffigur Onc4-11 - Os ydych wedi ateb nac ydw neu'n ansicr i gwestiynau 8 a 9, dywedwch pam wrthym?**





Roedd ymatebwyr a ddewisodd 'ansicr' neu 'nac ydw' yn gallu darparu ymatebion testun rhydd ynghylch eu rhesymau pam, ac mae'r rhain yn cael eu dangos yn Ffigur Onc4-11. Y themâu mwyaf cyffredin oedd pryder nad oedd unrhyw fanteision i'r cynllun (24%) a phryder ynghylch y llwybr yn achosi gwrthdaro rhwng defnyddwyr (21%), gan amlygu pwysigrwydd ystyried gwahanu rhwng gwahanol foddau, os bydd y cynllun yn parhau i'r cam dylunio.

O ran y gwrthdaro rhwng defnyddwyr, nododd rhai ymatebwyr y byddai'r llwybr yn cael ei ddefnyddio ac yn cefnogi cynigion, dim ond os oedd y llwybr yn ddigon llydan i gynnwys yr holl ddefnyddwyr. Roedd sylwadau eraill yn nodi eu bod yn teimlo y dylai beicwyr ddefnyddio'r rhwydwaith ffyrdd yn lle hynny, gan fod y cyflymder y maent yn teithio yn gwrthdaro â'r rhai sy'n cerdded, yn olwynio neu sydd â phroblemau symudedd.

Teimlai'r ymatebwyr a nododd fod ganddynt bryderon hygyrchedd y byddai cyflwyno'r llwybr cyd-ddefnyddio yn cyfyngu ar y defnydd o geir, sy'n hanfodol i'r rhai â phroblemau symudedd. Roedd cwestiynau hefyd ynghylch sut y byddai unrhyw risiau neu raddiannau ar y llwybr yn addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn.

Roedd sylwadau eraill i'w nodi yn canolbwyntio ar wyneb y llwybr. Teimlai ymatebwyr y byddai'r llwybr yn fuddiol pe bai'r wyneb o ansawdd da, h.y. ddim yn llithrig mewn tywydd gwlyb neu'n anwastad, a phe gellid gosod golau ar hyd y llwybr i ganiatáu defnydd mewn cyfnodau tywyllach.

**Ffigur I4-12 - A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar y cynnig hwn?**




Y thema mwyaf cyffredin ar gyfer sylwadau pellach ar y cynnig (Ffigur I4-12) oedd cefnogaeth i'r cynigion (27%). Roedd 9% ychwanegol o'r sylwadau yn cyfeirio at y cynllun yn gwella diogelwch. Ymhlith y themâu negyddol cyffredin oedd gweld dim budd o'r cynllun (19%) a phryderon ynghylch materion â achosir gan gulhau'r ffordd gerbydau (7%).

Roedd cefnogaeth i gynigion yn nodi y byddai llwybr di-draffig o Draeth Poppit i Landudoch yn welliant sylweddol ar y llwybr presennol. Teimlai ymatebwyr y byddai'r llwybr yn fuddiol iawn ar gyfer gwella mynediad i Draeth Poppit trwy ddulliau llesol, hyrwyddo dulliau iachach o deithio a helpu i gynyddu diogelwch i bob defnyddiwr, yn enwedig plant a'r rhai â phroblemau symudedd.

O ran gwelliannau Llandudoch, teimlai'r rhai â oedd yn cefnogi'r cynigion y byddai llwybrau cerdded mwy diogel ar y stryd fawr yn cael eu croesawu, yn enwedig o ran plant yn defnyddio'r llwybr. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai mesurau rheoli traffig pellach, megis gorfodi'r terfyn cyflymder 20mya, hefyd yn helpu i wella diogelwch.


Roedd sylwadau gan y rhai a ddywedodd na allent weld unrhyw fudd o'r cynllun yn teimlo bod y cynllun wedi'i deilwra ar gyfer twristiaid a theithiau hamdden, yn hytrach na thrigolion sy'n byw ac yn gweithio yn Llandudoch. Teimlai ymatebwyr y byddai culhau'r stryd fawr yn arwain at gynnydd mewn tagfeydd traffig, ac mae pryderon pellach y gallai hyn effeithio ar wasanaethau brys yn cael mynediad i rannau eraill o'r pentref, gan gynnwys yr RNLI sydd angen mynediad i'r orsaf bad achub.

Yn ogystal, teimlai'r ymatebwyr y byddai'r cynigion yn arwain at leihau lleoedd parcio, ac ar adegau prysur yn yr haf pan fyddai'r maes parcio yn llawn, byddai hyn yn achosi problem i drigolion a'r rhai â phroblemau symudedd.

### 4.1.5 Cwestiynau cymdeithasol a demograffig

Mae Ffigur 4-13 yn dangos demograffeg oedran ymatebwyr i'r arolwg. O'r 102 o arolygon a gwblhawyd, atebodd 99 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.


**Ffigur 4-13 – Beth yw eich oedran?**




Mae ystod eang o oedrannau, gyda ymatebion gan bobl o dan 15 oed a thros 75 oed. Fodd bynnag, mae'r ymatebion wedi'u pwysoli tuag at bobl dros 45 oed (74%) o gymharu â'r rhai dan 45 (20%), a 5% yn ffafrio peidio â dweud. Mae hyn yn eithaf cynrychioliadol o boblogaeth Llandudoch, lle mae pobl dros 45 oed yn 63% o'r boblogaeth[3].

[3] Adeiladu proffil ardal wedi'i deilwra - Cyfrifiad 2021, SYG

**Ffigur 4-14 - Pa effeithiau/cyfleoedd fyddai'r cynigion yn eu cael ar bersonau i ddefnyddio'r Gymraeg?**




Mae Ffigur 4-14 yn amlygu'r cyfleoedd a'r effeithiau y gallai'r cynigion eu cael ar ddefnyddio'r Gymraeg. Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, nododd ymatebwyr y bydd gwell cydlyniant cymdeithasol â achosir gan annog teithio llesol o fudd I ddefnydd yr iaith Gymraeg. Teimlai'r ymatebwyr y byddai cyflwyno cyfleusterau teithio llesol yn rhoi cyfleoedd i gwrdd a siarad â siaradwyr Cymraeg eraill sydd hefyd yn defnyddio'r llwybr. Nododd rhai ymatebwyr y byddai'r cyfle hwn yn eu helpu i ymarfer wrth ddysgu'r iaith, gan helpu i hwyluso twf yn y defnydd lleol o'r Gymraeg.

Yn ogystal, mae cyfle amlwg i gynnwys y Gymraeg ar arwyddion y cynnig terfynol. Teimlai ymatebwyr, yn ogystal ag arwyddion cyfeirio, y gellid ysgrifennu byrddau gwybodaeth ychwanegol megis gwybodaeth am y natur/tirwedd leol a'r posibilrwydd o weld bywyd gwyllt yn yr iaith Gymraeg.

# 5. Crynodeb o adborth

Mae Tabl 5-1 yn dangos crynodeb o gasgliadau dadansoddiad yr arolwg a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio camau nesaf y llwybrau teithio llesol arfaethedig hyn.

**Tabl 5-1 - Casgliadau o ymatebion i'r arolwg**

| Adran arolwg | Themâu allweddol |
|---|---|
| Pwrpas teithio | ▪ Mae mwyafrif o'r ymatebwyr yn drigolion lleol (60%), gyda theithiau hamdden i gyfleusterau lleol neu i ymweld â ffrindiau a theulu yn gwneud cyfanswm o 27% o'r ymatebion. (Ffigur 4-1).<br>▪ Mae cymudo i'r gwaith neu'r ysgol yn cyfrif am 11% o'r ymatebion (Ffigur 4-1). |
| Barn ar Lwybr Canol y Pentref a'r Llwybr Pren | ▪ Mae cymysgedd o ymatebion, gyda 49% ddim yn cefnogi'r llwybrau cyd-ddefnyddio, 42% yn cefnogi'r llwybrau cyd-ddefnyddio, a 9% yn ansicr (Ffigur 4-2).<br>▪ Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi datblygu'r Llwybr Pren yn hytrach na Llwybr Canol y Pentref. Roedd rhai sylwadau'n nodi bod angen uwchraddio'r Llwybr Pren ers nifer o flynyddoedd.<br>▪ Y thema fwyaf cyffredin ar gyfer y Llwybr Pren oedd cefnogaeth i'r llwybr (30.4% o'r ymatebwyr). Y prif bryder am y llwybr yw'r gwrthdaro posibl rhwng defnyddwyr (Ffigur 4-4). Gellid goresgyn hyn trwy ddylunio manylion pellach.<br>▪ Y themâu mwyaf cyffredin ynglŷn â Llwybr Canol y Pentref (a dderbyniodd lawer mwy o sylwadau na'r Llwybr Pren yn gyffredinol) oedd pryderon ynghylch tagfeydd traffig cynyddol a lôn gerbydau gul o ganlyniad i'r cynllun (Ffigur 4-3). Teimlai'r ymatebwyr y byddai Llwybr Canol y Pentref yn achosi problemau gyda llif traffig ac yn effeithio'n negyddol ar drigolion lleol. |
| Barn ar lwybrau amgen | ▪ Y llwybr oren oedd yr opsiwn mwyaf dewisol, gan gyfrif am 38% o'r ymatebion (Ffigur En 4-6), ac yn derbyn y gyfran isaf o ymatebion fel yr opsiwn lleiaf dewisol, gyda 24% o'r ymatebion (Ffigur 4-7).<br>▪ Ar y llaw arall, dim ond 25% o gyfran yr opsiwn mwyaf dewisol a gafodd y llwybr glas golau (Ffigur En 4-6), a'r gyfran uchaf o ymatebion ar gyfer yr opsiwn a lleiaf dewisol (46%) (Ffigur 4-7). |
| Barn gyffredinol ar y cynllun | ▪ Mae awydd ac angen am lwybr teithio llesol rhwng Llandudoch a Thraeth Poppit. Yn gyffredinol, mae ymatebwyr yn meddwl y bydd y cynigion yn fuddiol ac yn gyffredinol, nid ydynt yn hyderus wrth feicio gan ddefnyddio'r seilwaith teithio llesol a ddarperir ar hyn o bryd (Ffigur 4-8).<br>▪ Ceir ymateb cyfartal rhwng y rhai sy'n cytuno (48% o'r ymatebion) a'r rhai sy'n anghytuno (38% o'r ymatebion) ynghylch â yw'r cynllun yn annog mwy o bobl i gerdded a beicio ac yn gwella hygyrchedd i'r rhai ag anghenion symudedd. Roedd 16% o'r ymatebion yn ansicr ar y ddau ddatganiad (Ffigur 4-10).<br>▪ Y themâu mwyaf cyffredin sy'n peri pryder ynghylch y cynigion yw: credu na fydd unrhyw fudd yn deillio o'r cynigion, gwrthdaro rhwng defnyddwyr, a phroblemau o ran culhau'r ffordd gerbydau. Er gwaethaf hyn, y thema fwyaf cyffredin i'r cwestiwn agored terfynol oedd cefnogaeth i'r cynigion (Ffigur Onc4-11). |
| Cwestiynau cymdeithasol a demograffig | ▪ Mae'r ymatebion wedi'u pwysoli tuag at bobl dros 45 oed (74%) o gymharu â'r rhai dan 45 oed (20%) (Ffigur 4-13). Mae hyn yn eithaf cynrychioliadol o boblogaeth Llandudoch, lle mae pobl dros 45 oed yn cyfrif am 63% o'r boblogaeth.<br>▪ Mae cyfle clir i gynnwys y Gymraeg ar arwyddion y cynnig terfynol (Ffigur 4-14). |

# 6. Camau nesaf

Pwrpas y rownd hon o ymgysylltu oedd ymgysylltu'n ffurfiol â'r gymuned leol ar y llwybrau arfaethedig ar gyfer gwelliannau teithio llesol, fel rhan o'r ymgysylltu ehangach ar gyfer gwelliannau teithio llesol ledled Sir Benfro. Gellir defnyddio'r crynodeb o'r adroddiad ymgysylltu hwn i gyfrannu at fersiynau pellach o'r dyluniadau a gellir ei ddefnyddio i helpu i wneud penderfyniadau ar aliniadau dewisol i symud y prosiect hwn ymlaen i'r cam dylunio manwl.

**AtkinsRéalis UK Limited**
The Hub
500 Park Avenue
Aztec West
Bristol
BS32 4RZ

Ffôn: +44 (0)1454 662000
Ffacs: +44 (0)1454 663333

© AtkinsRéalis UK Limited ac eithrio lle nodir yn wahanol